tŷ hafan
darparu gofal
bod yno

tŷ hafan. dau air syml sy'n golygu popeth i'n teuluoedd ni.

dychmygwch eich bod newydd gael gwybod y bydd eich plentyn yn marw cyn tyfu'n oedolyn.

Beth fyddech chi'n ei wneud? At bwy fyddech chi'n troi? Sut byddech chi'n ymdopi?

Mae'n amhosib dychmygu'r peth. Dyma hunllef waethaf pob rhiant ac mae'n troi'n wirionedd dychrynllyd i rai. Ond i blant a phobl ifanc sy'n byw bywydau byr yng Nghymru, a'u teuluoedd, mae cysur a chymorth ar gael. Tŷ Hafan yw ei enw.

Am y deng mlynedd diwethaf, mae Tŷ Hafan wedi bod yn gofalu am bobl ifanc sy'n byw bywydau byr, a'u teuluoedd, gan sicrhau eu bod yn gwneud y mwyaf o bob munud gwerthfawr. Nid yn unig y mae Tŷ Hafan yn ail gartref sy'n darparu gofal lliniarol arbenigol, ond yr ydym hefyd yn cynnig nerth, seibiant a chefnogaeth sydd eu gwir angen ar y teulu cyfan. O ddiagnosis hyd y brofedigaeth ac wedi hynny, yr ydym yn mynd ã'n cefnogaeth i galon cartref y teulu. Rydym yn gwneud hyn yn gwbl rad ac am ddim i deuluoedd yng Nghymru sydd ein hangen.

Fodd bynnag, mae gofal o ansawdd yn costio arian. Gan nad ydym ni'n rhan o'r GIG, dydyn ni ddim yn cael unrhyw arian statudol gwarantedig. Er mwyn parhau i gynnig gofal a chefnogaeth i'n teuluoedd, yr ydym angen eich cymorth.

Helpwch ni i leddfu'r pwysau llethol y mae ymdopi ã phlentyn neu berson ifanc sy'n byw bywyd byr yn ei roi ar fywyd teuluol. Gyda'ch haelioni chi, rydym yn cynnig seibiannau byr i deuluoedd er mwyn iddynt gael y seibiant y maent wir ei angen. Gallai hyn gynnwys llety ar gyfer unrhyw aelod o'r teulu sy'n dymuno aros gyda ni. Rydym hefyd yn darparu cymorth a chefnogaeth y tu allan i'r hosbis, yn y cartref ac yn y gymuned, er mwyn sicrhau bod gan bob plentyn raglen ofal gynhwysfawr.

Mae Tŷ Hafan yn cofleidio ymagwedd gadarnhaol at fywyd a marwolaeth sy'n creu ac yn coleddu einioes o atgofion. Mae'n ymwneud ã gwella ansawdd bywyd y plant hyn a'u teuluoedd. Mae'n golygu llawenydd, hwyl a chyfeillgarwch. Mae'n rhoi cyfle i deuluoedd deimlo'n normal a gwneud y pethau y mae teuluoedd yn arfer eu gwneud - pethau cyffredin bywyd y byddech yn eu dymuno ar gyfer eich teulu eich hunan, eich plentyn eich hunan.

Felly, helpwch ni i fod yn graig i'r teuluoedd hyn, os gwelwch yn dda. Helpwch ni i lenwi eu bywydau ã chymorth, gofal a chariad. Helpwch hwy i wneud y mwyaf o'r amser sydd ganddynt ar ôl gyda'i gilydd.

www.tyhafan.org

Tŷ Hafan - yr hosbis deuluol i fywydau ifanc. Cwrt Sant Hilari, Heol Copthorne, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6ES
Ffôn: 029 2067 2060 Ffacs: 029 2067 2061 Elusen Gofrestredig Rhif: 1047912. Mae Tŷ Hafan® yn nod masnach cofrestredig.

stori summer a mabon

Wrth gwrdd am y tro cyntaf â Summer sy'n chwe blwydd oed, a Mabon sy'n bedair, gallech feddwl eu bod yn union fel unrhyw blant ifanc eraill sy'n ymddangos fel bod ganddynt ddigonedd o egni ac nad ydynt yn ofni dim yn y byd.

Yn eu hachos hwy, fodd bynnag, y rheswm yw eu bod yn dioddef o gyflwr San Filippo (sy'n anhwylder mwcopolysacarid a adnabyddir fel MPS). Yn achos Summer a Mabon, nid oes ganddynt yr ensym sy'n dadelfennu'r mwcopolysacaridau, ac mae hyn yn achosi iddynt aros yn y celloedd gan greu niwed cynyddol.

Mae'r ddau blentyn ar y cam cyntaf o'u cyflwr, sy'n arddangos gorfywiogrwydd, a gallai rhai pobl gamddehongli hyn fel 'plant drwg nad ydynt yn cael eu disgyblu'n effeithiol'.

Mae rheoli eu hanghenion heb gymorth digonol yn orchwyl enfawr i'w mam, Diane.

"Yn Nhŷ Hafan, mae fy mhlant yn cael y gofal un-i-un yr wyf yn aml yn ei chael hi'n anodd ei roi iddynt gartref gan mai fi yw eu hunig ofalydd."

"Mae aros gyda'n gilydd yn Nhŷ Hafan yn fy ngalluogi i ychwanegu at eu gofal a threulio amser gyda fy mhlant a mwynhau eu hapusrwydd. Mae hyn yn gaffaeliad na fyddai ar gael i ni fel arall.

"Mae'r plant wrth eu bodd yno gan fod digonedd o le ganddynt i redeg o gwmpas yn rhydd, sydd yn angen pwysig iawn iddynt. Mae'r ffaith fod cymaint o olau naturiol yno yn helpu i greu naws gadarnhaol i'r lle sydd yn ei dro yn creu teimlad o ryddid, rhywbeth sy'n aml yn brin iawn pan ydych chi'n gofalu am blant ar eich pen eich hun.

"Mae hefyd yn golygu fy mod i'n gallu defnyddio ein hamser yno i geisio dal i fyny â gwaith papur, neu ar adegau prin, dim ond gollwng fy mhethau yn f'ystafell a chysgu, gan wybod bod y plant yn ddiogel ac yn hapus.

"Pan gawson ni ein cyfeirio at Dŷ Hafan am y tro cyntaf, doeddwn i ddim yn ymwybodol o'r llu o wasanaethau oedd ar gael yno.

Yn ogystal â'r gofal un-i-un yr ydym yn ei dderbyn yn yr hosbis, mae ein gweithiwr Cymorth i Deuluoedd Tŷ Hafan hefyd yn fy nghynorthwyo i ymdrin â sefydliadau eraill, yn ogystal â'r brwydrau y mae'n ddyletswydd arna i, eu mam, eu hymladd ar eu rhan, gan ofalu amdanyn nhw ar yr un pryd."

Yn drist, mae'r cyflwr yn golygu na fydd Summer a Mabon yn gallu symud o gwbl pan fyddant yn cyrraedd eu harddegau, a byddant yn graddol golli'r gallu i gyfathrebu.

Mae hefyd yn golygu y bydd Diane yn colli ei dau blentyn annwyl cyn iddynt dyfu'n oedolion

Sut y byddech chi'n ymdopi?

1 Gallwch ddibynnu ar fy nghefnogaeth i.

(Defnyddiwch BRIF LYTHRENNAU) Teitl ..... Enw Cyntaf .....

Cyfenw ..... Dyddiad Geni .....

Enw'r cwmni (os yw'n berthnasol) .....

Cyfeiriad llawn .....

..... Cod Post .....

Ffôn ..... Rhif ffôn symudol .....

Helpwch Dŷ Hafan i arbed arian ar gostau postio - ymunwch â'n rhestr e-bost!

E-bost .....

2 Dyma fy rhodd reolaidd o:

☐ **£10 bob mis** ☐ **£15 bob mis** ☐ **Arall** Nodwch faint £ ..... bob mis

A fyddech cystal â llenwi eich cyfarwyddyd Debyd Uniongyrchol isod a pheidiwch ag anghofio rhoi croes yn y blwch rhodd cymorth!

tŷ hafan

Instruction to your Bank or Building Society to pay by Direct Debit
Cyfarwyddyd i'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu i dalu drwy Ddebyd Uniongyrchol

DIRECT Debit

Please fill in the form and send to Tŷ Hafan, Head Office, St Hilary Court, Copthorne Way, Culverhouse Cross, Cardiff CF5 6ES

Cwblhewch y ffurflen gyfan ac anfonwch hi at: Tŷ Hafan, Cwrt Sant Hilari, Heol Copthorne, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6ES

Name and full postal address of your Bank or Building Society / Enw a chyfeiriad llawn eich Banc/Cymdeithas Adeiladu

To the Manager / At y Rheolwr — Bank/Building Society / Banc/Cymdeithas Adeiladu

Address / Cyfeiriad

Post Code / Cod Post

Name(s) of Account Holder(s) / Enw(au) deiliad/deiliaid y cyfrif

Bank/Building Society account number / Rhif y cyfrif Banc/Cymdeithas Adeiladu

Branch Sort Code / Cod Didoli'r Gangen

BACS Service User Number / Rhif Defnyddiwr y Gwasanaeth BACS

2	4	9	5	0	0

Reference Number / Rhif Cyfeirnod

Instruction to your Bank or Building Society
Cyfarwyddyd i'ch Banc neu Gymdeithas Adeiladu

Please pay Tŷ Hafan Direct Debits from the account detailed in this instruction subject to the safeguards assured by the Direct Debit Guarantee. I understand that this instruction may remain with Tŷ Hafan and if so, details will be passed electronically to my Bank/Building Society.

A fyddech cystal â thalu Tŷ Hafan o'r cyfrif a nodir ar y cyfarwyddyd hwn yn amodol ar y mesurau a sicrheir gan y diogelwch Gwarant Debyd Uniongyrchol. Deallaf y gall y cyfarwyddyd hwn aros gyda Thŷ Hafan ac, os felly, anfonir manylion yn electronig i'm Banc/Cymdeithas Adeiladu.

Signature(s) / Llofnod(ion)

Date/Dyddiad

Banks and Building Societies may not accept Direct Debit Instructions for some type of accounts
Gall Banciau/Cymdeithasau Adeiladu wrthod derbyn cyfarwyddiadau i dalu Debydau Uniongyrchol o rai mathau o gyfrifon

3 Ni allaf ymrwymo i wneud cyfraniad rheolaidd, ond hoffwn wneud rhodd:

☐ **Derbyniwch fy siec / taleb CAF os gwelwch yn dda am £** ..... **yn daladwy i Dŷ Hafan**

☐ **Derbyniwch fy rhodd-daliad cerdyn credyd/debyd - Debydwch fy MasterCard/Visa/Cerdyn Debyd**

Enw ar y cerdyn ..... am y swm o **£**.....

Cyfeiriad (os yw'n wahanol) .....

..... Cod Post ..... Ffôn .....

Rhif y cerdyn ..... Rhif cyhoeddi'r cerdyn debyd (os yw'n berthnasol) .....

Dyddiad cyhoeddi'r cerdyn ...../..... Dyddiad terfyn y cerdyn ...../..... Rhif diogelwch: ..... (y tri rhif olaf ar gefn y cerdyn)

Llofnod ..... Dyddiad .....

4 Cynyddwch eich cyfraniad gyda'r Cynllun Rhodd Cymorth

giftaid it

☐ Rwyf yn drethdalwr yn y DU a hoffwn i Dŷ Hafan adennill y dreth ar fy rhodd trwy'r Cynllun Rhodd Cymorth (28c ychwanegol am bob £1 a roddir gennyf). Mae'r datganiad hwn hefyd yn berthnasol i bob rhodd a wnaed gennyf i Dŷ Hafan yn ystod y pedair blynedd diwethaf a'r holl roddion y byddaf yn eu gwneud o hyn ymlaen nes y byddaf yn eich hysbysu'n wahanol. Er mwyn i roddion fod yn gymwys ar gyfer Rhodd Cymorth rhaid eich bod yn talu treth incwm neu dreth enillion cyfalaf sy'n gyfartal i'r swm sy'n cael ei hawlio yn y flwyddyn dreth.

Anfonwch ragor o wybodaeth ataf i am:

☐ Digwyddiadau Tŷ Hafan
☐ Gadael rhodd yn fy ewyllys
☐ Gwirfoddoli
☐ Codi arian
☐ Arall - nodwch os gwelwch yn dda .....
☐ "Crackerjackpot"
☐ Sut gall fy nghwmni gefnogi Tŷ Hafan
☐ Cychwyn neu ymuno â grŵp "Cyfeillion Tŷ Hafan"

Dychwelwch y ffurflen hon i: Tŷ Hafan, Prif Swyddfa, Cwrt Sant Hilari, Heol Copthorne, Croes Cwrlwys, Caerdydd CF5 6ES

Mae Tŷ Hafan yn gwerthfawrogi eich cefnogaeth, ac yn addo parchu eich preifatrwydd. Mae'r data yr ydym yn ei gasglu a'i gadw yn cael ei reoli yn unol â Deddf Diogelu Data (1998). Ni fyddwn yn datgelu nac yn rhannu gwybodaeth bersonol a gafwyd gennych gydag unrhyw sefydliad arall heb eich caniatâd. Trwy ddarparu'r manylion hyn, rydych yn rhoi caniatâd i Dŷ Hafan gysylltu â chi trwy e-bost, llythyr neu ar y ffôn i'ch hysbysu am weithgareddau ac ymgyrchoedd codi arian yn y dyfodol, oni bai eich bod wedi dangos gwrthwynebiad i dderbyn negeseuon o'r fath trwy roi tic yn un o'r blychau isod.

Nid wyf yn dymuno i chi gysylltu â mi trwy: e-bost ☐ ffôn ☐ y post ☐

At ddefnydd y swyddfa yn unig 024148 (feb11)